

Economeg Safon Uwch (Amser Llawn)

Mae'r Economeg Lefel UG / Lefel A yn gwrs addysg bellach dwy flynedd amser llawn wedi'i leoli yn yr Academi Chweched Dosbarth (SFA) sydd wedi'i gynllunio ar gyfer myfyrwyr sydd â diddordeb yn yr economi a'i effaith ar fywyd bob dydd. Byddwch yn archwilio materion fel: a oedd y DU yn iawn i aros allan o'r Ewro, pam mae trethi petrol mor uchel, sut i frwydro yn erbyn newid yn yr hinsawdd, a pham mae rhai ardaloedd o'r wlad yn perfformio'n well nag eraill.

Bydd diddordeb gwirioneddol mewn materion cyfoes a'r byd o'ch cwmpas yn helpu'ch dealltwriaeth o'r pwnc. Edrychwn ar Micro-Economeg - astudio defnyddwyr a busnesau - a Macro-Economeg - astudio materion ehangach fel chwyddiant, diweithdra a dirwasgiad.

Ymgeisio am Lefelau UG neu Lefel A? Cliciwch 'Gwnech Gais Nawr' ar unrhyw UN o'r pynciau y mae gennych ddiddordeb mewn eu hastudio. Llenwch y ffurflen gais ar-lein, lle gofynnir i chi nodi'ch dau ddewis arall. Yna archebwch apwyntiad Cyfweiliad i gwrdd â'r tiwtoriaid a thrafod y dewisiadau sydd orau gennych.

Gofynion Mynediad

6 TGAU â Gradd C neu uwch gan gynnwys Saesneg Iaith â Gradd C a Mathemateg â Gradd B.

Rhagolygon Gyrfa

Mae'r llwybr dilyniant cydnabyddedig ar gwrs Addysg Uwch yng Ngrwp Colegau NPTC neu brifysgol arall. Bydd prifysgol yn ystyried Lefel A mewn Economeg fel pwnc sy'n datblygu sgiliau dadansoddol ac ysgrifenedig.

Mae bron pob sefydliad mawr yn y wlad yn cyflogi economegydd i ryw raddau, gan wneud Economeg yn bwnc pwerus ar gyfer agor drysau i bob math o alwedigaethau.

Costau Ychwanegol

Efallai y bydd costau cysylltiedig â chwrs am eitemau fel, ond heb fod yn gyfyngedig i, werslyfrau, deunydd ysgrifennu, argraffu, ac ymweliadau addysgol dros nos.

Coleg Afan
Coleg Bannau Brycheiniog
Academi Chwaraeon Llandarcy
Canolfan Ragoriaeth Adeiladwaith Maesteg
Coleg Castell-nedd
Coleg Y Drenewydd
Coleg Pontardawe
Canolfan Adeiladwaith Abertawe

Afan College
Brecon Beacons College
Llandarcy Academy of Sport
Maesteg Construction Centre of Excellence
Neath College
Newtown College
Pontardawe College
Swansea Construction Centre





DULL ASTUDIO

FT

LLEOLIAD

Coleg Castell-nedd - 0330 818 8100

HYD Y CWRS

2Y

Coleg Afan
Coleg Bannau Brycheiniog
Academi Chweraeon Llandarcy
Canolfan Ragoriaeth Adeiladwaith Maesteg
Coleg Castell-nedd
Coleg Y Drenewydd
Coleg Pontardawe
Canolfan Adeiladwaith Abertawe

Afan College
Brecon Beacons College
Llandarcy Academy of Sport
Maesteg Construction Centre of Excellence
Neath College
Newtown College
Pontardawe College
Swansea Construction Centre



☎ 0330 818 8100

✉ enquiries@nptcgroup.ac.uk

🌐 www.nptcgroup.ac.uk

